emanueljones
chartered surveyors




# 19 /20 Fflatiau Plasmelin,

## Westbourne Road, Caerdydd, CF14 2BT

**AR OSOD**

UNED MANWERTHU
903 sq ft (83.98 sq m)

+ Ffrynt dwbl ardderchog
+ Safle manwerthu ar y llawr gwaelod
+ Dyfynbris £15,000 y flwyddyn


029 2081 1581

www.emanuel-jones.co.uk

## LLEOLIAD

Mae'r eiddo ym maestref boblogaidd yr Eglwys Newydd yng Ngogledd Caerdydd.  Mae tua 3 milltir i'r gogledd o ganol y ddinas gyda mynediad ar hyd yr A470 a'r A4054.  Mae'r eiddo wedi'i gysylltu'n dda â'r ardal leol ac wedi ei wasanaethu gan nifer o lwybrau bysiau. Mae gorsaf drenau Llandaf hefyd yn daith gerdded fer 0.5 milltir i'r de. Mae parcio i gwsmeriaid o flaen yr eiddo ac ar ffyrdd cyfagos heblaw am y mannau sydd wedi eu neilltuo i breswylwyr.

Mae'r eiddo ei hun yn wynebu Westbourne Road. Mae busnesau cyfagos yn cynnwys Crave Hairdressers a'r Foot Post Podiatry Clinic.




## DISGRIFIAD

Mae'r gofod masnachol sydd ar gael yn cynnwys safle manwerthu ar y llawr gwaelod gyda ffrynt dwbl.  Mae wedi'i drefnu i ddarparu gofod gwerthu ar y llawr gwaelod cyfan gyda thoiled ger canol yr eiddo a storfa gefn/gofod ymgynnull i staff gyda mynediad i'r ardaloedd awyr agored y tu ôl i'r eiddo.

## LLETY

Mae'r eiddo wedi'i fesur ar sail ardal fewnol net gyda'r mesuriadau canlynol:

CYFANSWM 908 troedfedd sgwâr
83.98 metr sgwâr

## RHENT

Mae'r eiddo ar gael ar rent gyda dyfynbris o £15,000 y flwyddyn.

## TELERAU'R BRYDLES

Mae'r eiddo ar gael ar brydles newydd ar gyfer cyfnod blynyddoedd sydd i'w gytuno.

## ARDRETHI BUSNES

Rydym yn deall mai gwerth ardrethol yr eiddo yw £5,000. Rydym yn deall bod yr eiddo felly'n gymwys ar gyfer rhyddhad 100% ar ardrethi busnes bach.

Dylai partïon â diddordeb ddibynnu ar eu hymholiadau eu hunain gyda'r Awdurdod Lleol.

## TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI (TPY)

Mae gan yr eiddo radd TPY o C (52).  Gellir gweld copi llawn o'r tystysgrif ar gais.

## TAW

Nid yw'r eiddo wedi cael ei nodi ar gyfer TAW.

## COSTAU CYFREITHIOL

Pob parti i dalu eu costau cyfreithiol a phroffesiynol eu hunain.

## GWELD YR EIDDO

Drwy apwyntiad yn unig gyda'r asiant Emanuel Jones

Contact: David Williams / Carlo Piazza
Email: david@emanuel-jones.co.uk
carlo@emanuel-jones.co.uk

YN AMODOL AR GONTRACT AC ARGAELEDD

emanueljones
chartered surveyors
029 2081 1581
6 TY-NANT COURT MORGANSTOWN CARDIFF CF15 8LW

Awst 2024

Yn amodol ar gontract ac argaeledd: Mae Emmanuel Jones ar eu rhan eu hunain ac ar ran gwerthwyr/prydleswyr yr eiddo hwn y maent yn asiantau iddo yn nodi'r canlynol: Mae'r manylion wedi'u gosod fel amlinelliad cyffredinol er arweiniad yn unig i ddarpar brynwyr neu brydleswyr, ac nid ydynt yn, nac yn rhan o, gynnig contract. Rhoddir pob disgrifiad, maint, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw wasanaethau, gosodiadau neu ffitiadau yn gyfystyr â chynrychiolaeth (oni nodir yn wahanol) ynghylch cyflwr neu addasrwydd ar gyfer unrhyw swyddogaeth arfaethedig. Dylai darpar brynwyr neu brydleswyr fodloni eu hunain ynghylch addasrwydd eitemau o'r fath ar gyfer eu gofynion. Nid oes gan unrhyw unigolyn a gyflogir gan Emanuel Jones ganiatâd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo hwn.

19 /20 Fflatiau Plasmelin,
Westbourne Road, Caerdydd, CF14 2BT